

## 2016 Rhif 528 (Cy. 160)

### TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55  
(Cyffordd 7 (Cefn Du), Ynys Môn i  
Gyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y  
Gwynt), Bangor, Gwynedd)  
(Terfynau Cyflymder 30 mya a 50  
mya Dros Dro) 2016

*Gwnaed* 22 Ebrill 2016

*Yn dod i rym* 25 Ebrill 2016

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor a Chefnffordd Llundain – Caergybi (yr A55) (“y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o’r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i’r cyhoedd ar y ffordd, neu gerllaw iddi, pan fo gwyntoedd cryfion.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

#### Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw’r Gorchymyn hwn i rym ar 25 Ebrill 2016 a’i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 7 (Cefn Du), Ynys Môn i Gyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Bangor, Gwynedd) (Terfynau Cyflymder 30 mya a 50 mya Dros Dro) 2016.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

(a) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys; a

(b) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu’r llu awyr ac sy’n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion yr aelod o

luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lloedd arbennig—

- (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
- (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “y darnau o'r gefnffordd” (“*the lengths of the trunk road*”) yw'r darn hwnnw o brif gerbyttfordd a ffyrdd ymuno ac ymadael y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 7 (Cefn Du), Ynys Môn hyd at ganolbwynt Cyffordd 11 (Cyfnwidfa Llys y Gwynt), Bangor, Gwynedd;

ystyr “lloedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lloedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lloedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

### **Cyfyngiadau**

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru, yn gyflymach na 30 mya ar y darnau o'r gefnffordd.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru, yn gyflymach na 50 mya ar y darnau o'r gefnffordd.

### **Atal Dros Dro**

5. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau perthnasol o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 drwy hyn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 3 a 4 yn weithredol.

### **Cymhwyso**

6. (1) Ni fydd darpariaethau erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny pan fydd cyflymder y gwynt yn fwy na lefel a all effeithio ar ddiogelwch defnyddwyr y ffordd ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

## **Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig

22 Ebrill 2016

*Richard Morgan*

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau

Llywodraeth Cymru

- (1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi.
- (2) Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30(1) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn wedi eu rhoi bellach i Weinidogion Cymru o ran Cymru.